Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Practis Deintyddol Chepstow Road (Deintyddfa Brunswick), Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

## Dyddiad yr arolygiad: 13 Mehefin 2023

## Dyddiad cyhoeddi: 13 Medi 2023



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol 978-1-83504-663-0
© Hawlfraint y Goron 2023

Ar y cyfan, gwelsom fod Practis Deintyddol Chepstow Road yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Fodd bynnag, nodwyd gennym fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r amgylchedd, cadw cofnodion a gwiriadau cyn cyflogi staff y practis.

Gwnaethom gyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio i'r lleoliad er mwyn sicrhau bod gwelliannau yn cael eu gwneud yn ddi-oed.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Chepstow Road ar 13 Mehefin 2023

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod Practis Deintyddol Chepstow Road yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion.

Gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd gwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ‘dda iawn’ neu'n ‘dda’.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Ystyried rhoi addasiadau rhesymol ar waith i gleifion â phroblemau symudedd.
- Gwella systemau ar gyfer cofnodi a gweithredu ar adborth a chwynion.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar.
- Mae'r practis yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion ac yn eu hannog i roi adborth.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

**“Gofal a thriniaeth rhagorol gan bob aelod o'r tîm”**

**“Proffesiynol iawn. Maent yn gydymdeimladol iawn. Amyneddgar iawn.”**

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod y practis yn lân ac yn daclus ar y cyfan. Gwelsom dystiolaeth o waith adnewyddu ac atgyweirio. Roedd gan y practis gyfarpar addas i ddarparu gwasanaethau a thriniaethau yn ddiogel ac yn effeithiol.

Nid oes ystafell ddihalogi ar wahân yn y practis ar hyn o bryd, a dylid ystyried hyn fel rhan o unrhyw waith gwella yn y dyfodol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom eu bod yn gyffredinol foddhaol, ond gellid gwneud gwelliannau, a gwelsom gofnodion cleifion wedi'u storio mewn cypyrddau nad oedd yn bosibl eu cloi.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Nid oedd gwiriadau gofynnol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal ar un aelod o staff.
- Sicrhau y caiff yr asesiad risg tân ei ddiweddaru a'i weithredu.
- Sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu storio'n ddiogel.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Gwelsom fod y deintyddfeydd wedi'u hadnewyddu a'u gwella'n sylweddol ers arolygiad diwethaf y practis.
- Ystyriwyd fod y cyfarpar clinigol yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at ei ddiben.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Roedd rheolwr y practis a'r staff yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roeddent yn cydweithio'n dda.

Roedd y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion ac roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhai polisïau, gweithdrefnau nac asesiadau risg gofynnol ar waith.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Sicrhau bod pob polisi, gweithdrefn ac asesiad risg gofynnol ar waith.
- Sicrhau bod y staff yn cael sesiynau arfarnu rheolaidd.
- Gwella'r system rheoli dogfennau er mwyn sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r gofynion hyfforddiant a gofynion addasrwydd i weithio.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda

- Roedd strwythurau rheoli clir ar waith.
- Roedd system electronig yn cael ei mabwysiadu i reoli cydymffurfiaeth â hyfforddiant.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r gwasanaeth gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r gwasanaeth gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i wasanaethau ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

